# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tereen Ltd**

**37-38**
**Parc Menter Quinton Hazell**
**Ffordd Glan y Wern**
**Bae Colwyn**
**LL28 5BS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/07/2024

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.**

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Tereen Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Tereen Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Mawrth 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

**Crynodeb**

Mae llesiant y bobl a'r staff gofal yn ganolog i'r cynlluniau a'r gofal a ddarperir. Ceir tîm o staff sefydledig sy'n adnabod y bobl a'u hanghenion gofal yn dda. Mae'r trefniadau staffio a recriwtio yn ffynnu sy'n golygu bod y lefelau staffio wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r darparwr yn parhau i fod yn angerddol am y gwasanaeth a ddarperir ac mae'n goruchwylio'r gofal a ddarperir mewn ffordd drefnus, effeithlon a dwyieithog, sy'n golygu bod y bobl yn cael gwasanaeth da iawn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu cynnwys wrth gynllunio'r gofal y maent yn ei gael yn rheolaidd; gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gweld yr un gofalwyr ar yr amseroedd a neilltuwyd. Mae'r bobl yn cael profiad cyfoethog, lle y bo'n bosibl, am fod eu hanghenion diwylliannol a'u hanghenion o ran y Gymraeg yn cael eu diwallu; caiff gwasanaeth Cymraeg a Saesneg ei gynnig yn unol ag anghenion a dewisiadau unigol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn gofalu am yr un bobl ar yr un amseroedd, yn eu cartrefi. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau cysondeb, a bod y staff gofal yn dilyn y cynlluniau personol manwl.

Mae'r bobl mor iach ac egnïol ag y gallant fod. Caiff y bobl eu hannog a'u cymell gan y staff gofal i fod mor annibynnol â phosibl. Nod y staff gofal yw galluogi'r bobl i gynnal eu harferion dyddiol. Maent yn helpu'r bobl i gysylltu â theulu, ffrindiau a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol a pharhaus rhwng y bobl, eu teulu, eu ffrindiau a gweithwyr iechyd proffesiynol, ac yn hyrwyddo hynny. Caiff y bobl eu cynorthwyo i fynychu apwyntiadau iechyd neu i fynd allan gyda theulu a ffrindiau.

Caiff y bobl eu diogelu rhag y risg o niwed. Gwelsom fod amrywiaeth o asesiadau risg yn cael eu cofnodi yn y cofnodion gofal a bod y rhain yn cael eu cynllunio pan fydd y gofal yn dechrau. Gwelsom fod adolygiadau rheolaidd o asesiadau risg yn cael eu cynnal. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd â'r asesiadau risg o'r gofal a ddarperir ac amgylchedd y bobl, lle y caiff y gofal ei ddarparu. Caiff y staff gofal eu hyfforddi a'u cefnogi ac maent yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn pryderu am rywun. Mae aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol, ac maent yn monitro risgiau, digwyddiadau a'r gofal a ddarperir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol y bobl yn gywir, yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad mewn perthynas â'r ffordd y dylid darparu'r gofal y maent yn i gael. Caiff y cofnodion gofal eu cynllunio ar y cyd â'r bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Roedd y cynlluniau personol a welsom yn nodi arferion, anghenion gofal a dewisiadau'r bobl. Nod y gofal a ddarperir yw cynnal annibyniaeth y bobl yn eu cartref eu hunain. Dywedodd un person wrthym, "*They do try to give me a very good service. They put themselves out.*" Mae'r cofnodion gofal yn electronig a gall y staff a'r tîm rheoli gael gafael arnynt, eu haddasu a'u monitro ar unrhyw adeg. Caiff adolygiadau o ofal eu cynnal o fewn terfynau amser neu pan fydd anghenion gofal yn newid. Rhoddir gwybod i'r staff gofal am unrhyw newidiadau i'r cynlluniau personol fel rhan o'r broses adolygu. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn adlewyrchu canlyniadau unigol y bobl.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt drwy wasanaeth sydd wedi'i gynllunio mewn ymgynghoriad â'r unigolyn ac sy'n ystyried ei ddymuniadau personol, ei ddyheadau, a chanlyniadau unrhyw risgiau ac anghenion arbenigol sy'n llywio ei anghenion gofal a chymorth. Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sy'n gallu diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau o ran y Gymraeg. Mae asesiadau yn sefydlu dewisiadau iaith y bobl, ac yn teilwra'r gofal i ddewis iaith yr unigolyn. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal. Gwelsom lofnodion y bobl yn y cofnodion gofal. Gwelsom fod asesiadau risg priodol ar waith i sicrhau diogelwch y bobl. Caiff asesiadau risg eu llunio os/pan fydd risgiau'n cael eu nodi i unigolion, er enghraifft cwympiadau, yr amgylchedd neu ddeiet. Gwelsom fod yr asesiadau risg yn fanwl ac yn rhestru'r camau i'w dilyn i ddiogelu'r bobl.

Mae'r darparwr yn gwneud cysylltiadau priodol â gweithwyr gofal proffesiynol. Gwelsom fod y cofnodion gofal yn dangos dulliau cyfathrebu a chynlluniau gofal priodol, amserol ac effeithiol. Gwelsom fod newidiadau perthnasol a diweddariadau yn cael eu gwneud yn dilyn cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys ardal a ffisiotherapyddion. Rhoddir gwybod i'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal yr unigolion am unrhyw newidiadau i'w hanghenion gofal yn effeithlon ac yn brydlon. Gwelsom newidiadau i'r cofnodion gofal pan fydd anghenion gofal yn newid, a bod asesiadau risg ar waith lle bo angen. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y darparwr yn ddibynadwy.

Mae'r darparwr yn sicrhau y caiff y gweithdrefnau rhoi meddyginiaethau eu dilyn. Mae polisïau a gweithdrefnau meddyginiaeth y gwasanaeth yn gyfredol ac ar gael yn hawdd i'r staff gofal. Caiff unrhyw newidiadau i'r rhain eu rhannu â'r staff. Caiff y bobl eu hannog a'u helpu i gymryd y feddyginiaeth a ragnodwyd ar eu cyfer. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth helpu'r bobl i gymryd eu meddyginiaeth. Mae'r tîm rheoli yn monitro'r trefniadau ar gyfer rhoi meddyginiaethau er mwyn sicrhau diogelwch y bobl mewn ffordd effeithiol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Maent yn sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth i'w galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae angen cynnal asesiadau llawn a thrylwyr cyn i'r bobl gael gofal. Mae'r bobl yn cael gwasanaeth lle mae'r darparwr yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant yr unigolyn. Mae'r darparwr yn casglu gwybodaeth gan y bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol, sy'n chwarae rhan fawr yn y broses hon. Mae systemau cadarn ac effeithiol ar waith i fonitro anghenion y bobl yn rheolaidd, y gofal a ddarperir a'r cofnodion gofal. Mae'r unigolyn cyfrifol yn casglu gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth drwy gasglu adborth gan y bobl, gweithwyr proffesiynol a'r staff gofal. At hynny, cynhelir archwiliadau rheolaidd i fonitro cynnydd a gwelliannau. Mae'r datganiad o ddiben yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Ceir rhaglen hyfforddiant parhaus i'r staff gofal. Mae polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn sail i'r hyfforddiant hwn ac mae'r rhain yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu a'u haddasu yn ôl yr angen.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio trefniadau ariannol a buddsoddiad yn y gwasanaeth fel ei fod yn ariannol gynaliadwy ac yn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel a chyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn swyddfeydd newydd, sy'n fwy cost-effeithiol, hygyrch, diogel a chanolog. Dywedodd y darparwr wrthym fod y trefniadau cadw a recriwtio staff yn "*thriving*". Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cofnodion staffio a dogfennau cyllid y gwasanaeth. Gwelsom sampl o archwiliadau, sy'n dangos prosesau cynllunio ariannol a chynnal a chadw effeithiol ac effeithlon.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff addas sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau o ofal a chymorth sy'n ofynnol i alluogi'r unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff gofal, sy'n dangos bod y staff gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod sesiynau goruchwylio a hyfforddiant yn cael eu darparu'n gyson. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Gwnaethant ddweud wrthym fod digon o amser yn cael ei neilltuo i alwadau ac i deithio rhwng galwadau. Mae'r darparwr yn sicrhau cysondeb drwy ddyrannu'r un gofalwyr i'r un bobl. Mae hyn yn golygu eu bod yn adnabod y bobl yn dda. Dywedodd un person wrthym, "*I have the same carers call. I know who is calling*". Dywedodd person arall wrthym, "*Basically, they are very good. They become your friend, and we have a good laugh*"

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi